GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

ADNODD GWASANAETH CYFNOD SYLFAEN

Cyflwyniad i Athrawon

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel. Mae hawl hefyd gan y rhai sy'n teithio gyda hwy neu wrth eu hymyl i deithio'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg, er bod ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gallu bod yn broblem. Mae hyn yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch a gall y canlyniadau fod yn drasig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion sy'n gorfod delio ag ymddygiad gwael ac aflonyddgar. Dyna pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r ***Cod Teithio.*** Bwriad y Cod Teithio yw gwella diogelwch ar gludiant ysgol trwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cod Teithio'n hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr, trwy osod y safonau ymddygiad sydd eu hangen. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Teithio a chynhaliwyd gweithdai ledled Cymru i gasglu eu syniadau, eu mewnbwn a'u hadborth.

Mae cosbau yn rhan o'r Cod Teithio. Os na ddilynir y Cod Teithio, gall awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill gymryd camau yn erbyn plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys colli'r hawl i gael cludiant i'r ysgol am gyfnod a'u gwahardd o'r ysgol yn y pen draw.

Fel ymarferydd gallwch chwarae rôl bwysig, gan dynnu sylw plant a phobl ifanc at eu hawliau, ymddygiad derbyniol a chanlyniadau ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, wrth addysgu am hawliau, mae angen adlewyrchu bod hawliau'n gyffredinol a diymwad ac nad ydynt yn gysylltiedig ag, nac yn dibynnu ar ymddwyn mewn ffordd arbennig. Mae hefyd yn bwysig nodi pan ydych yn derbyn hawl i'ch hun eich bod hefyd yn ei dderbyn i eraill ac na ddylech ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar fwynhad eraill o'u hawliau.

Mae gwybodaeth ar **http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/?lang=cy**
a hefyd ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Bwriad y cynllun gwers hwn yw eich helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r Cod Teithio. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r gwaith pwysig hwn.

Am fwy o wybodaeth neu i gyfeirio cydweithwyr at y Cod, ewch i **http://www.codteithio.org**

ADNODD GWASANAETH CYFNOD SYLFAEN

Cefndir

Mae'r cynllun gwasanaeth hwn yn cyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan. Mae nifer o gysyniadau allweddol yn sail i'r Cod Teithio: cysyniadau megis hawliau, ymddygiad a chodau ymddygiad. Nid yw'r cynllun gwasanaeth yn ceisio cyflwyno'r cysyniadau hyn ond yn hytrach mae'n defnyddio stori syml i ddarlunio rhai o'i negeseuon. Mae'r stori'n addas i blant rhwng pump a saith oed yn ystod oedran y Cyfnod Sylfaen. Mae'r sleidiau PowerPoint cysylltiedig yn darlunio'r stori, ac efallai y byddai'r sleidiau hyn yn ffordd haws o adrodd y stori i blant iau. Mae'r sleidiau hefyd yn amlinellu rhesymau am y Cod Teithio ac yn cyflwyno'r Cod Teithio ei hun. Yr ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut mae'r rhain yn addas ar gyfer eu dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen.

Gallai'r gwersi hefyd gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthyglau 2, 3, 6, 13, 28, 29 a 42. Gellir cael adnoddau i helpu i addysgu'r CCUHP ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**

Adnoddau

- Mae sleidiau PowerPoint, Taith Aisha i'r Ysgol, ar gael o wefan y Cod Teithio: **http://www.codteithio.org/parents.html**
- Mae copïau o'r Cod Teithio ar gael i rieni a gofalwyr **http://www.codteithio.org/travelcode.html**
- Gellir cael adnoddau CCUHP, i ddysgu am hawliau, ar safle Gwneud Pethau'n Iawn ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Hyd

- Yn dibynnu ar y cyfraniad gan ddisgyblion, bydd y gwasanaeth yn cymryd tua 15 munud.

Cyflwyniad

Bore da bawb. Heddiw rydym ni am sôn am sut yr ydym yn cyrraedd yr ysgol. Fe wnes i ddod yn fy nghar [gofynnwch sut teithiodd eraill i'r ysgol]. Sut daethoch chi i'r ysgol heddiw? Rydym ni am feddwl beth sy'n gwneud taith i'r ysgol yn hapus a diogel. Ac rydym am ddysgu am ferch o'r enw Aisha a beth sy'n gwneud ei thaith hi i'r ysgol yn hapus a diogel.

Prif Adran

[Wrth i'r stori ganlynol gael ei hadrodd mae ymarferwyr yn gallu oedi er mwyn gofyn a yw'r plant yn deall ei chynnwys a sefydlu pwyntiau allweddol. Os oes taflunydd ar gael, bydd darluniau yn y sleid PowerPoint yn galluogi ymarferwyr i gyfeirio at y lluniau a gofyn cwestiynau a phwyntiau allweddol ar gyfer dysgu.]



Dyma Aisha. Mae Aisha tua'r un oed â chi. Ac fel sawl un ohonoch chi sydd yma heddiw, mae Aisha yn cerdded i'r ysgol bob bore gyda'i mam. Mae ei mam yn gwthio coets baban gyda brawd bach Aisha ynddi. Mae Aisha bob amser yn gafael yn y goets wrth gerdded. Mae Aisha yn gwybod ei fod yn bwysig gafael yn y goets. Felly pan mae'n oer, mae Aisha bob amser yn cofio gwisgo ei menig, gan fod y goets fetel yn gallu mynd yn oer hefyd.

[Pwyntiau allweddol: teithio'n ddiogel gydag oedolyn cyfrifol, gafael yn yr oedolyn, mae Aisha yn cymryd cyfrifoldeb am ei thaith]

Un diwrnod wrth iddynt gerdded i'r ysgol roedd yn rhaid iddynt stopio. Roedd fan wedi parcio ar y palmant. Roedd yn danfon parseli ond roedd yn eu ffordd. Ni allai Aisha a'r goets wasgu eu ffordd heibio iddi. Roedd y ffordd yn brysur iawn.

ADNODD GWASANAETH CYFNOD SYLFAEN

Felly gofynnodd mam Aisha i'r gyrrwr symud y fan. Rhoddodd y gyrrwr ei barseli'n ôl yn y fan. Symudodd y fan o'r ffordd ac ymlaen a hwy.

[Pwyntiau allweddol: nid yw camu i'r ffordd yn ddiogel, nid yw gyrrwr sy'n parcio ar y palmant yn gyfrifol, hawl i daith ddiogel, mae oedolyn cyfrifol bod amser yn sicrhau diogelwch]

Yn fuan daethant at y ffordd ger yr ysgol. Gallai Aisha weld y dyn lolipop yn helpu'r plant i groesi'r ffordd. Gwelodd Aisha ei ffrind Mark. Cododd ei llaw ar Mark ond ni chododd ei law'n ôl. Roedd dwy eneth hŷn yn pryfocio Mark. Roedd y genethod wedi cymryd het gynnes Mark ac roedden nhw'n ei thaflu at ei gilydd. Roedd Mark yn chwerthin ond gallai Aisha weld mai cymryd arno yr oedd Mark. Nid oedd Mark yn hapus iawn mewn gwirionedd. Felly, gofynnodd Aisha i'r dyn lolipop ddweud rhywbeth. Gofynnodd y dyn lolipop i Mark a fyddai'n hoffi cael ei het yn ôl. Dywedodd Mark y byddai'n hoffi ei chael. Felly gofynnodd y dyn lolipop i'r genethod roi het Mark yn ôl iddo - ac fe wnaethon nhw hynny. Gwenodd Mark. Roedd yn llawer hapusach nawr.

[Pwyntiau allweddol: hawl i ddiogelwch, hawl i deimlo'n ddiogel, hawl i beidio â chael eich pryfocio na'ch bwlio, angen gofyn i oedolion cyfrifol os oes angen]

Helpodd y dyn lolipop Mark ac Aisha i groesi'r ffordd yn ddiogel. Dywedodd Aisha hwyl fawr wrth ei mam a'i brawd bach. Gwenodd ar Mark a rhedodd y ddau i'r ysgol gyda'i gilydd. Roedd Aisha wedi mwynhau ei thaith i'r ysgol.

[Pwyntiau allweddol: beth wnaeth taith Aisha i'r ysgol yn un bleserus a diogel, beth wnaeth Aisha i wneud y daith yn well iddi ei hun ac i Mark?]

Camau Nesaf

- Gellid dosbarthu copïau o'r Cod Teithio i rieni.
- Gellid defnyddio'r gwasanaeth fel ffordd i gyflwyno'r Cod Teithio i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen, a dysgu amdano. Gweler y Cynllun Gwers cysylltiedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar wefan y Cod Teithio.